gofalwyr CYMRU

# Adroddiad ymchwil gofalwyr mewn cyflogaeth

1



# Crynodeb

- Mae bron i 145,000 o bobl mewn cyflogaeth yn darparu gofal di-dâl yng Nghymru. O'r rheini, mae 121,000 yn weithwyr cyflogedig.

- Mae 28,000 o bobl mewn cyflogaeth yn darparu dros 50 awr o ofal di-dâl bob wythnos.

- Mae pobl sy'n darparu gofal di-dâl yn fwy tebygol o fod yn gweithio'n rhan-amser o gymharu â'r rheini sydd heb gyfrifoldebau gofalu. Mae 36% o ofalwyr mewn cyflogaeth yn gweithio'n rhan-amser, o gymharu â 29% o'r rheini mewn cyflogaeth nad ydynt yn ofalwyr.

- Mae gofalwyr mewn cyflogaeth sy'n gofalu am dros 50 awr yr wythnos hyd yn oed yn fwy tebygol o fod yn gweithio'n rhan-amser (41%).

- Er mai'r diwydiant mwyaf cyffredin i bobl weithio ynddo, beth bynnag fo'u statws gofalu, yw gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd, mae cyfran uwch o ofalwyr mewn cyflogaeth yn gweithio yn y diwydiant hwn o gymharu â'r rheini mewn cyflogaeth nad ydynt yn ofalwyr (43% o'i gymharu â 35%).

- Mae gofalwyr mewn cyflogaeth sy'n gofalu am 50 awr neu fwy yr wythnos yn fwy tebygol o weithio ym maes dosbarthu, gwestai a bwytai na gofalwyr mewn cyflogaeth sy'n gofalu am lai nag 19 awr yr wythnos (20% o'i gymharu ag 16%). Maent yn llai tebygol o weithio ym meysydd ariannol, eiddo tirol, proffesiynol a gweinyddol (11% o'i gymharu ag 13%).

- Mae gofalwyr mewn cyflogaeth sy'n gofalu am dros 50 awr yr wythnos yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn galwedigaethau elfennol na gofalwyr mewn cyflogaeth sy'n gofalu am 19 awr neu lai (12% o'i gymharu ag 8%). Maent yn llai tebygol o fod yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol (14% o'i gymharu â 21%), ac yn llai tebygol o fod yn gweithio fel rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion (10% o'i gymharu ag 12%).

[1] 144,814 heb gynnwys myfyrwyr amser llawn

## Nifer y gofalwyr mewn cyflogaeth

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae bron i **145,000 o bobl mewn cyflogaeth yn darparu gofal di-dâl yng Nghymru**, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- **121,000** o weithwyr cyflogedig
- **23,000** o weithwyr hunangyflogedig

Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr mewn cyflogaeth yn gofalu am 19 awr neu lai yr wythnos. Fodd bynnag, mae miloedd o bobl yn cyfuno gwaith gyda lefelau uchel o ofal. Mae dros 28,000 o bobl mewn cyflogaeth yn gofalu am dros 50 awr yr wythnos.

**Tabl 1: Nifer y gofalwyr mewn cyflogaeth yn ôl oriau gofal**

| Oriau gofal | Nifer y gofalwyr mewn cyflogaeth |
|---|---|
| Yn darparu 19 awr neu lai o ofal di-dâl yr wythnos | 86,000 |
| Yn darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos | 30,000 |
| Yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos | 28,000 |

## Oriau gwaith gofalwyr

Yn ôl Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr, mae'r rhan fwyaf o ofalwyr mewn cyflogaeth yn gweithio'n amser llawn (94,000 o bobl). Mae 54,000 yn gweithio'n rhan-amser.

**Tabl 2: Nifer y gofalwyr mewn cyflogaeth yn ôl oriau gwaith**

| Oriau gwaith | Nifer y gofalwyr mewn cyflogaeth |
|---|---|
| Amser llawn | 94,000 |
| Rhan-amser | 54,000 |

Mae cyfran fwy o ofalwyr mewn cyflogaeth yn gweithio'n rhan-amser na'r rheini sydd heb gyfrifoldebau gofalu. Mae 36% o ofalwyr mewn cyflogaeth yn gweithio'n rhan-amser, o gymharu â 30% o'r rheini mewn cyflogaeth nad ydynt yn ofalwyr. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod gofalwyr yn aml yn lleihau eu horiau gwaith i ddarparu gofal.

---

[2] 2,475,000 o bobl, heb gynnwys myfyrwyr amser llawn

[3] Mae'r cyfansymiau'n cynnwys myfyrwyr amser llawn sy'n gofalu ac sydd mewn cyflogaeth. Oherwydd bod angen i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ddiogelu cyfrinachedd data unigolion, nid yw'n bosibl gwahanu'r cyfansymiau hyn yn ofalwyr sy'n gyflogeion ac yn ofalwyr sy'n hunangyflogedig.

[4] Carers UK *Juggling Work and Care* (2019) https://www.carersuk.org/media/no2lwyxl/juggling-work-and-unpaid-care-report-final-web.pdf

**Tabl 3: Oriau gwaith yn ôl statws gofalu**

| Statws gofalu | Canran y bobl mewn cyflogaeth | |
|---|---|---|
| | Rhan-amser | Amser llawn |
| Gofalwyr | 36% | 64% |
| Unigolion nad ydynt yn ofalwyr | 30% | 70% |

Mae gofalwyr mewn cyflogaeth sy'n gofalu am dros 50 awr yr wythnos hyd yn oed yn fwy tebygol o fod yn gweithio'n rhan-amser. Fel y dengys Tabl 4, mae 41% o ofalwyr mewn cyflogaeth sy'n gofalu am dros 50 awr yr wythnos yn gweithio'n rhan-amser, o gymharu â 34% o ofalwyr mewn cyflogaeth sy'n gofalu am 19 awr neu lai yr wythnos.

**Tabl 4: Oriau gwaith gofalwyr yn ôl oriau gofal**


| Oriau gofal | Canran mewn cyflogaeth yn gweithio'n llawn amser | Canran mewn cyflogaeth yn gweithio'n rhan-amser |
|---|---|---|
| Yn darparu 19 awr neu lai o ofal di-dâl yr wythnos | 66% | 34% |
| Yn darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos | 63% | 37% |
| Yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos | 59% | 41% |

## Ble mae gofalwyr yn gweithio

### Data cyfrifiad ynghylch ble mae gofalwyr yn gweithio

**Diwydiant**
Yn ôl Cyfrifiad 2021 yng Nghymru, y diwydiant mwyaf cyffredin ble mae gofalwyr yn gweithio yw gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd. Mae 43% o ofalwyr mewn cyflogaeth yn gweithio yn y diwydiant hwn. Dilynwyd hyn gan ddosbarthu, gwestai a bwytai (18%) ac ariannol, eiddo tirol, proffesiynol a gweinyddol (12%).

Ffigur 1: Gofalwyr mewn cyflogaeth yn ôl diwydiant




Mae hyn yn debyg i'r boblogaeth gyffredinol. Er enghraifft, mae'r mwyafrif o bobl mewn cyflogaeth yn gweithio ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd (30%). Fodd bynnag, mae gofalwyr mewn cyflogaeth yn llawer mwy tebygol o weithio ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd, o'u cymharu â phobl nad ydynt yn ofalwyr (43% o'i gymharu â 30%).


Mae rhai gwahaniaethau yn dibynnu ar nifer yr oriau gofalu y mae gofalwyr yn eu gweithio. Mae Tabl 5 yn dangos bod gofalwyr mewn cyflogaeth sy'n gofalu am 20 awr neu fwy yr wythnos yn fwy tebygol o weithio ym maes dosbarthu, gwestai a bwytai na gofalwyr mewn cyflogaeth sy'n gofalu am lai nag 19 awr yr wythnos (20% o'i gymharu ag 16%).

**Tabl 5: Gofalwyr mewn cyflogaeth yn ôl diwydiant ac oriau gofalu**

| Diwydiant | Y canran o ofalwyr mewn cyflogaeth sy'n gweithio yn y diwydiant hwn | | |
|---|---|---|---|
| | Gofalu am lai nag 19 awr | Gofalu am 20-49 awr | Gofalu am 50 awr neu fwy |
| Amaethyddiaeth, ynni a dŵr | 3% | 3% | 3% |
| Gweithgynhyrchu | 7% | 7% | 8% |
| Adeiladu | 6% | 7% | 6% |
| Dosbarthu, Gwestai a Bwytai | 16% | 20% | 20% |
| Cludiant a chyfathrebu | 6% | 6% | 6% |
| Gweithgareddau ariannol, eiddo tirol, proffesiynol a gweinyddol | 13% | 11% | 11% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd | 44% | 42% | 41% |
| Arall | 4% | 4% | 5% |

**Galwedigaeth**
Yn ôl Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr, y math o alwedigaeth fwyaf cyffredin ymysg gofalwyr yw galwedigaethau proffesiynol, gydag 18% o ofalwyr yn gweithio yn y math hwn o rôl.

Ffigur 2: Gofalwyr mewn cyflogaeth yn ôl galwedigaeth




## Rhagor o adnoddau

Cyhoeddodd Gofalwyr Cymru adroddiad ym mis Tachwedd 2023 a oedd yn rhannu data o Gyfrifiad 2021 ynghylch nifer y gofalwyr mewn cyflogaeth ym mhob awdurdod lleol a Bwrdd Gofal Integredig. Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at hawliau newydd i ofalwyr mewn perthynas ag absenoldeb gofalwyr a gweithio'n hyblyg, ac roedd yn rhannu ymatebion gofalwyr i gwestiynau Arolwg Cyflwr Gofal 2023 am gydbwyso gwaith a gofal.

Employers for Carers
Mae'r elusen, Employers for Carers Wales (EfC), yn cael ei llywio gan fusnes a'i chefnogi gan wybodaeth arbenigol Gofalwyr Cymru, ac yn darparu cymorth ymarferol i gyflogwyr i gefnogi'r gofalwyr sy'n rhan o'u gweithlu.

Fe'i lansiwyd yn 2009 fel fforwm aelodaeth cyflogwyr, ac erbyn hyn mae gan EfC dros 230 o sefydliadau sy'n aelodau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan ofalu am oddeutu 2.8 miliwn o weithwyr. Mae'r gwasanaethau i aelodau'n cynnwys llwyfan gwe pwrpasol gydag amrywiaeth o adnoddau ymarferol, gan gynnwys e-ddysgu, pecynnau cymorth, polisïau enghreifftiol ac astudiaethau achos, mynediad at hyfforddiant ac ymgynghoriaeth arbenigol a digwyddiadau rhwydweithio i gyflogwyr. Lansiwyd cynllun meincnodi cyflogwyr EfC ledled y DU, Career Confident, yn 2019, ac erbyn hyn mae ganddo 60 o gyflogwyr achrededig sy'n creu gweithle cefnogol a chynhwysol i staff sy'n ofalwyr neu a fydd yn dod yn ofalwyr. I gael rhagor o wybodaeth, ewch employersforcarers.org/about-us/hwb-cymru

gofalwyr
CYMRU

**Cysylltu**
I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad ymchwil hwn, cysylltwch â'r tîm polisi yn info@carerswales.org

Gofalwyr Cymru
Uned 5, Llys Pont Ynys, Caerdydd, CF15 9SS
Rhif Ffôn: 029 2081 1370
E-bost: info@carerswales.org
Gwefan: www.carerswales.org
X: @CarersWales
LinkedIn: Carers-Wales

Cyhoeddwyd Ebrill 2024

Ymwadiad: Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod y briff hwn yn gywir, nid yw'n ddatganiad awdurdodol o'r gyfraith. Sylwch y bydd diweddariadau rheolaidd wrth i wybodaeth newydd gael ei rhyddhau. Gwnewch yn siŵr bod y fersiwn diweddaraf gennych. .

© Gofalwyr Cymru, Ebrill 2024

Mae Gofalwyr Cymru yn rhan o Carers UK, elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (246329) ac yn yr Alban (SC039307) a chwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (864097). Swyddfa gofrestredig: 20 Great Dover Street, Llundain, SE1 4LX.